OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Little Mill, man i'r Gorllewin o Frynbuga i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021

*Gwnaed* *28 Mai 2021*

*Yn dod i rym* *4 Mehefin 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Little Mill, man i'r Gorllewin o Frynbuga i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mehefin 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A4042 Trunk Road (Little Mill, West of Usk to Hardwick Roundabout, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021

*Made* *28 May 2021*

*Coming into force* *4 June 2021*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4042 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1),** make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Little Mill, West of Usk to Hardwick Roundabout, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and this Order comes into force on 4 June 2021.

### Interpretation

**2.** In this Order:

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

**(1)** 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw cyfnodau ysbeidiol sy’n cychwyn am 20:00 o’r gloch ar 4 Mehefin 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i’r Amwythig yn Sir Fynwy.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 162 o fetrau i’r gogledd o Gyffordd Little Mill yr A472 hyd at bwynt 40 o fetrau i’r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Mai 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” *(“y gefnffordd”)* means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road in the County of Monmouthshire;

“works period” *(“cyfnod y gwaith”)* means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 4 June 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road that extends from a point 162 metres north of the A472 Little Mill Junction to a point 40 metres south of the centre point of Hardwick Roundabout.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 28 May 2021

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (LITTLE MILL, MAN I’R GORLLEWIN O FRYNBUGA I GYLCHFAN HARDWICK, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, yn Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio’r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd

**THE A4042 TRUNK ROAD (LITTLE MILL, WEST OF USK TO HARDWICK ROUNDABOUT, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road in the County of Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the lengths of the A4042 trunk road

ar y darnau o gefnffordd yr A4042 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, mewn grym ac yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 o'r gloch i 06:00 o'r gloch) o 4 Mehefin 2021 i 7 Mehefin 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 162 o fetrau i'r gogledd o Gyffordd Little Mill yr A472 hyd at bwynt 40 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

**ATODLEN 2**
**Y Llwybrau Eraill**

1. Y llwybr arall ar gyfer traffig trwodd sy'n dymuno teithio i'r gogledd ar yr A4042 o ben deheuol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A4042 i'r de i ymuno â'r M4 wrth Gyffordd 25a (Grove Park), mynd i'r dwyrain i Gyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra) ac ar yr A449 i'r gogledd i Raglan ac yna mynd ar yr A40 i'r gorllewin i'r Fenni.

specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are described in Schedule 2 to this Notice.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will be in force and operate intermittently overnight (20:00 hours to 06:00 hours) from 4 June 2021 until 7 June 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Temporary Prohibition of Vehicles**

The length of the trunk road that extends from a point 162 metres north of the A472 Little Mill Junction to a point 40 metres south of the centre point of Hardwick Roundabout.

**SCHEDULE 2**
**Alternative Routes**

1. The alternative route for through traffic wishing to travel north on the A4042 from the southern end of the closure will be via the southbound A4042 to join the M4 at Junction 25a (Grove Park), proceed eastbound to Junction 24 (Coldra Interchange) and northbound A449 to Raglan then westbound A40 to Abergavenny.

2. The alternative route for non-motorway traffic at the M4 Junction 25a (Grove Park) will be to continue southbound on the A4042 to Usk Way, then join the A48 Southern Distributor Road eastbound to Junction 24 (Coldra Interchange), then follow the main diversion route above.

2. Y llwybr arall ar gyfer traffig nad yw'n draffig traffordd wrth Gyffordd 25a yr M4 (Grove Park) fydd mynd i'r de ar yr A4042 i Ffordd Brynbuga, yna ymuno â Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 i'r dwyrain i Gyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra), ac yna dilyn y prif lwybr dargyfeiriol uchod.

I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de sy'n dymuno ymuno â'r A4042 wrth ben gogleddol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

Bydd llwythi annormal yn dilyn y llwybr arall yn rhan 1 uchod.

Sicrheir mynediad ar gyfer traffig lleol a dangosir arwyddion ar hyd yr A4042 hyd at y mannau y mae'r ffordd ar gau.

Caiff traffig ar ffyrdd ymyl a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yr effeithir arnynt gan gau'r ffordd ei ddargyfeirio neu ei reoli drwy'r gwaith yn unol â gofynion yr Awdurdod Lleol perthnasol.

Vice versa for southbound vehicles wishing to join the A4042 at the northern end of the closure.

Abnormal loads will follow the alternative route at part 1 above.

Access for local traffic will be maintained and signed along the A4042 up to the points of closure.

Traffic on the Local Authority maintained side roads affected by the closures will be diverted or managed through the works in accordance with the relevant Local Authority's requirements.